OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 No. 1495

Rheoliadau Cofrestru Prynwyr a Gwerthwyr Pysgod a Dynodi Safleoedd Arwerthu Pysgod (Cymru) 2006

Rhwystro swyddogion

17.—(1) Mae unrhyw berson–

(a) nad yw'n cydymffurfio heb reswm digonol ag unrhyw ofyniad a orfodir gan swyddog pysgodfeydd môr Prydain o dan bwerau a gyflwynir i swyddogion pysgodfeydd môr Prydain gan reoliadau 13, 14 a 15 o'r Rheoliadau hyn;

(b) heb reswm digonol yn rhwystro neu'n ceisio rhwystro unrhyw berson arall rhag cydymffurfio gydag unrhyw ofyniad o'r fath; neu

(c) sy'n ymosod ar unrhyw swyddog sy'n arfer unrhyw rai o'r pwerau a gyflwynwyd i'r swyddog o dan reoliadau 13, 14 a 15 o'r Rheoliadau hyn neu'n fwriadol yn rhwystro unrhyw swyddog o'r fath sy'n arfer unrhyw rai o'r pwerau hynny,

yn euog o drosedd.

(2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan baragraff (1) yn agored–

(a) ar gollfarn ddiannod i ddirwy dim uwch na'r uchafswm statudol; neu

(b) ar gollfarn o dditiad i ddirwy.